




Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Genesis 12: 1-8 Abram (Abraham) yn symud i Ganaan	 <p>FOR YOUNG CHILDREN Genesis 12:1-8 GOD TELLS ABRAM TO GO AND LIVE IN CANAAN www.freebibleimages.org</p>	
1 Roedd Abram a'i wraig Sarai yn byw yn Ur. Roedden nhw wedi bod yn briod ers amser maith.		
2 Un diwrnod dwedodd Duw wrth Abram i adael Ur a mynd i wlad Canaan. Addawodd Duw y byddai Abram yn cael mab, ac y byddai ei deulu'n tyfu i fod yn genedl fawr.		
3 Felly dyma Abram yn pacio ar gyfer y daith.		

-
- 4 Roedd Sarai wedi pacio hefyd. Tybed os oedd o'n wir ei bod hi am gael mab? A bod eu teulu nhw am dyfu a thyfu? Roedd Abraham yn 75 oed ac roedd Sarai'n hen hefyd.



-
- 5 Dyma Abram a Sarai yn dweud, "Hwyl fawr!" wrth eu ffrindiau, wedyn dyma nhw'n cychwyn ar y daith hir i wlad Canaan.



-
- 6 Teithiodd Lot, nai Abram gyda nhw. Dyma nhw'n cyrraedd Haran ac yn aros yno am sbel cyn ail-gychwyn.



-
- 7 Ar ôl amser maith dyma nhw'n cyrraedd Canaan. Dwedodd Duw wrth Abram, "Dw i'n mynd i roi'r wlad yma i dy blant di, ac i blant dy blant."



-
- 8 Adeiladodd Abram allor ger coeden fawr yn Sichem. Yno rhoddodd ddiolch i Dduw am ei addewid i fendithio ei deulu.



-
- 9 Ar ôl ychydig amser symudodd Abram a Sarai i ardal Bethel.



-
- 10 Adeiladodd Abram allor yno hefyd. Roedd o'n gweddïo ac yn moli Duw yno.



-
- 11 Setlodd Abram a Sarai yn eu cartref newydd. Roedd Duw wedi addo'r wlad i'w plant ac i blant eu plant. Ond roedden nhw'n hen a doedd ganddyn nhw ddim plant. Sut oedd Duw am gadw ei addewid? Roedd rhaid i Abram a Sarai drystio Duw.



-
- 12 Cyfieithwyd gan www.beibl.net

Free Bible Images

CONTRIBUTED BY
Andrea Rau

These images have been created and made available for free download from FreeBibleImages for teaching purposes only.
© Andrea Rau 2015.

www.freebibleimages.org
